

# Fferm Solar Candwr

Diweddariad Chwefror 2026

TotalEnergies

## Diweddariad am yr Adroddiad Cwmpasu

Fe wnaeth PEDW ddyroddi Cyfarwyddyd Cwmpasu ar 11 Chwefror 2026.

Mae'r Cyfarwyddyd Cwmpasu yn gais ffurfiol a wneir gan PEDW i bennu cwmpas a lefel manylder y wybodaeth i'w chynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol fel rhan o ddogfennaeth ategol y cais DNS arfaethedig.

Mae TotalEnergies yn cadarnhau y bydd Datganiad Amgylcheddol yn cael ei lunio yn unol â'r sylwadau a gafwyd gan PEDW a bod sylw dyledus yn cael ei roi i'r ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad.

# Profi Ymdreiddiad Dŵr

Mae profion ymdreiddiad dŵr wedi dechrau ar y safle. Bydd yr wybodaeth a gesglir o'r profion hyn yn helpu i bennu nodweddion y safle a datblygu cynllun y system ddraenio gysyniadol.

Yn unol ag arferion gwaith da, cafodd y pyllau prawf eu hatal dros dro yn ystod y tywydd gwlyb. Osgowyd symudiadau cerbydau ar draws y priddoedd ar dir llawn dŵr hefyd, oherwydd gall hyn arwain at ddifrod strwythurol.

Ar hyn o bryd, rydym yn gwerthuso'r canlyniadau rydym wedi'u casglu hyd yn hyn i benderfynu a oes angen rhagor o brofion ymdreiddiad ai peidio.

Mae ein strategaeth lliniaru llifogydd yn dal i gael ei datblygu a bydd rhagor o ddiweddariadau yn cael eu cynnig pan fydd wedi'i chwblhau.

## Cysylltwch


**E-bost:**
info@candwrsolarfarm.co.uk

**Ffôn:**
01633 631890

**Ysgrifennwch:**
Freepost Grasshopper Consult